

Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio - Cyfarwyddyd i'r Rhai sy'n Cyflwyno Ceisiadau Cynllunio

Mae cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio a chyflwyno adroddiad yn ei gylch ynghyd â chais cynllunio ffurfiol yn ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac nid yr Awdurdod Lleol sydd wedi gosod y gofyniad hwn.

Dogfennau Cyfarwyddyd

Gellir dod o hyd i gyfarwyddyd am yr ymgynghoriad cyn ymgeisio a'i ofynion yn [atodiad 1 cyfarwyddyd ymgynghoriad cyn ymgeisio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2016](#) (Y Gorchymyn) ac [Ymgynghoriad cymunedol cyn ymgeisio: canllaw arferion gorau i ddatblygwyr \(2017\) gan Lywodraeth Cymru](#). Bydd rhaid i ddatblygwyr ystyried y dogfennau hyn wrth gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio.

Manteision ymgynghoriadau cyn ymgeisio

Mae ymgynghoriad effeithiol yn:

- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd wella ei gais cynllunio cyn ei gyflwyno
- Gallu cynorthwyo'r cynnig i gael ei dderbyn gan ymgynghoreion y broses, gan gynnwys y gymuned leol
- Gallu helpu i osgoi costau ac oedi diangen gan sicrhau yr eir i'r afael â'r holl faterion perthnasol cyn gynted â phosibl

A oes angen i mi gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio?

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gyfer yr holl geisiadau llawn neu amlinellol am gynigion 'mawr'. Diffinnir datblygiad 'mawr' yn erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- adfer a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynol
- datblygu gwastraff
- datblygiadau preswyl o 10 annedd neu fwy neu lle mae arwynebedd y safle yn 0.5 hectar neu'n fwy (os nad yw nifer y preswylfeydd yn hysbys)

- darparu adeilad neu adeiladau lle bydd yr arwynebedd llawr a gaiff ei greu yn 1,000 metr sgwâr
- datblygiad a wneir ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy

Nid yw'r gofyniad yn berthnasol i geisiadau arfaethedig o dan adran 73 na 73a o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, materion a gadwyd yn ôl, nac o dan adran 96a (newidiadau ansylweddol).

Beth yw'r broses a beth fydd rhaid i mi ei wneud?

Mae erthygl 1 y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn gosod y gofynion ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio o ran ceisiadau mawr yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn amlinellu nifer o gamau ychwanegol y gall ymgeiswyr eu cymryd er mwyn sicrhau proses ymgynghori gynhwysol. Yn ogystal, byddai'r Cyngor hefyd yn awgrymu bod ymgeiswyr yn ystyried y pwyntiau canlynol o ran arferion da, a amlinellir yn [Ymgynghoriad cymunedol cyn ymgeisio: canllaw arferion gorau i ddatblygwyr \(2017\) gan Lywodraeth Cymru](#) a'r rheiny a amlinellir isod. Mae hyn yn ei dro yn caniatáu i'r ymgeisydd fanteisio i'r eithaf ar fanteision yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, a gall fod yn haws i gymunedau ac ymgynghoreion statudol gael effaith ar y cynigion datblygu.

Dylai'r math o ymgynghoriad cyn ymgeisio a gynhelir fod yn gymesur ag effaith bosibl y cynnig gan ystyried math a natur y cynnig a/neu sensitifrwydd y safle neu ei gyron.

Arferion Da

Cyfathrebu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol

Cyn cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio, argymhellir bod ymgeiswyr yn cysylltu ag Adain Rheoli Datblygu y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth cyn ymgeisio; gelir cael rhagor o wybodaeth ar [we-dudalen ein gwasanaeth cyn ymgeisio](#).

Gall Swyddogion Rheoli Datblygu roi cyngor ar y materion canlynol:

- Pa ddogfennau a gwybodaeth a fydd eu hangen fel rhan o'r cais cynllunio a pha ddogfennau y dylid ymgynghori yn eu cylch;

- Pa ymgynghoriad ychwanegol a allai gynnig cyfraniad gwerthfawr at yr ymgynghoriad yn ogystal â'r ymgynghoriad statudol a nodir yn y Gorchymyn. Gall y rhain gynnwys adeiniau eraill o'r Cyngor y mae eu meysydd gorchwyl yn ymwneud â materion megis ecoleg, diogelu'r cyhoedd, polisi cynllunio, a darparu parciau a mannau agored er enghraifft.

Cael y Cyhoeddusrwydd Mwyaf Posibl

Dylai ymgeiswyr gofio manteision o ran cael cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl cyn ymgeisio, ac wrth wneud hyn, dylent ystyried mynd y tu hwnt i ofynion y Gorchymyn. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynnal digwyddiadau ymgynghori megis arddangosfeydd cyhoeddus, digwyddiadau galw heibio, cyflwyniadau a gweithdai. Dylai digwyddiadau gael eu cynnal mewn lleoliadau a safleoedd hygrych a chynhwysol er mwyn galluogi cymaint â phosibl o bobl y byddai'r cynnig yn cael effaith arnynt i ddod, er mwyn iddynt wneud cyfraniadau gwerthfawr at yr ymgynghoriad.
- Dangos mwy nag un hysbysiad safle lle bo'n briodol a'u dangos yn eang. Ystyrir ei fod yn arfer da i ddatblygwyr roi hysbysiadau safle wrth bob mynediad presennol a phob pwynt mynediad arfaethedig i safle'r cais ac o leiaf un hysbysiad ar hyd pob ffin sy'n gyfagos i briffordd neu lwybr troed cyhoeddus, neu'n ffinio â hwy
- Ymestyn y cyfnod ymgynghori 28 diwrnod
- Sicrhau bod y dogfennau ymgynghori ar gael o fewn oriau gwaith arferol. Pan fydd dogfennau'n cael eu rhoi mewn adeilad sydd ag oriau agor cyfyngedig, ystyrir ei fod yn arfer da i sicrhau bod y dogfennau hefyd yn cael eu rhoi mewn ail leoliad sydd ar agor i'r cyhoedd yn ystod oriau gwaith arferol. Gellir defnyddio llyfrgelloedd mwy'r Cyngor at y diben hwn.
- Ymestyn ardal yr ymgynghoriad, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd mwy
- Defnyddio deunyddiau megis taflenni a llythyrau newyddion cymunedol.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook
- Sesiwn Briffio Cysylltiadau Rhagweithiol â'r Cyfryngau a Datganiadau i'r Wasg
- Defnyddio llythyrau ffurfiol
- Cynnal trafodaethau â chynrychiolwyr y gymuned megis yr Aelodau Lleol, Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned, am faterion mewn perthynas â'r cynnig gan gynnwys unrhyw rwymedigaethau cynllunio posibl
- Cynnal ymgynghoriad anstatudol ychwanegol cyn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio
- Rhoi crynodebau annhechnegol o ddogfennau technegol (yn y Gymraeg a'r Saesneg)

- Rhaid cyflwyno lluniadau a chynlluniau ar ffurf sy'n hawdd ei deall
- Dylai ymgeiswyr ddilyn yr Egwyddorion Cenedlaethol o ran Ymgysylltu a Chyfranogi: <https://participation.cymru/wp-content/uploads/2017/02/PC-National-Principles-Poster3.pdf>
- Dylai dogfennau'r cais cynllunio drafft fod ar gael at ddibenion ymgynghori. Er y cydnabyddir bod y rhain yn ddogfennau drafft, dylai'r ymgeisydd sicrhau bod y dogfennau a'r wybodaeth a ddarperir yn rhoi digon o wybodaeth er mwyn i'r ymgynghoreion roi ymateb gwybodus. Os na ddarperir digon o wybodaeth at ddibenion yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, nid yw'n debygol y caiff adroddiad yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ei ddilysu a bydd rhaid i'r ymgeisydd wneud yr ymarfer eto gan gydymffurfio â'r cyfarwyddyd

Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn Gyfartal

Mae 43.9% o'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn siarad Cymraeg, o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 20%. Mae'n bwysig bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ddwyieithog fel bod yr ymgynghoreion yn cael cyfle i gymryd rhan yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dylai'r datblygwyr:

- Gyhoeddi'r holl hysbysiadau a gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir cael ffurflenni templed yn Atodlen 1B y Gorchymyn
- Cynhyrchu dogfennau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori yn y Gymraeg a'r Saesneg cymaint ag sy'n ymarferol bosibl
- Gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn rhoi cyflwyniadau mewn digwyddiadau ymgynghori er mwyn siarad â'r ymgynghoreion a fyddai'n dymuno cyfathrebu drwy'r Gymraeg

Yr Adroddiad

- Dylid gwneud ymdrechion rhesymol i ddod i gonsensws. Dylai'r Adroddiad egluro a nodi sut y mae'r cyfranogiad wedi arwain at gytundeb i fabwysiadu neu ddiwygio'r cynigion. Pan na fydd cytundeb yn bosibl, dylid egluro'r rhesymau a maint yr anghytundeb
- Dylai'r Adroddiad fod yn gynhwysfawr ac yn amlinellu gwybodaeth yn glir

- Sicrhewch fod yr adroddiad ar gael ar wefan yr ymgynghoriad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl yr ymgynghoriad
- Dylid rhoi adborth i'r gymuned ynghylch y newidiadau a wnaed i'r cais o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio
- Dylai'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd adroddiad yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor fel rhan o'r cais cynllunio. Felly dylent fod yn ymwybodol o ddiogelu data wrth gyfeirio at ymatebion i'r ymgynghoriad a manylion yr ymgynghoreion
- Dylai'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod darparu adroddiad ymgynghoriad cyn ymgeisio yn ofynnol er mwyn i'r cais fod yn ddilys, ac os na chydymffurfiwyd â'r cyfarwyddyd ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio bydd rhaid i'r ymgeisydd gynnal yr ymarfer eto gan gydymffurfio â'r cyfarwyddyd

Rhagor o wybodaeth

Gellir dod o hyd i fanylion perthnasol Wardiau Cyngorau Tref a Chymuned, Wardiau Etholiadol a Chynghorwyr Sir yn <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-acau-asau-a-aseau/>